Children in Wales
Plant yng Nghymru

E-friffiad i aelodau 23 Awst 2019
Members' e-briefing 23 August 2019

This briefing is bilingual, click here for the English version.

---

Mae'r e-friffiad wythnosol hon yn cael ei baratoi'n arbennig ar eich cyfer chi fel rhan o'ch pecyn aelodaeth Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi am y newyddion a'r polisïau diweddaraf sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys manylion digwyddiadau a swyddi gwag a allai fod o ddiddordeb i chi.

I weld y rhestr lawn o fuddion aelodaeth sydd ar gael i chi, cliciwch yma. Os oes gennych sylwadau ar yr e-friffiad hon, cysylltwch â info@childreninwales.org.uk.

---

# Swyddi Gwag

Dewch o hyd i'r swyddi gwag diweddaraf ar wefan Plant yng Nghymru. Peidiwch ag anghofio - gall aelodau hysbysebu am ddim.

- Mae Plant yng Nghymru yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc a fyddai â diddordeb mewn ymuno â'n rhestr o weithwyr cyswllt. Rydym ni'n arbennig o awyddus i glywed gan siaradwyr Cymraeg sydd â diddordeb mewn gwaith cyfranogiad. Cysylltwch â lynne.hill@childreninwales.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.

---

# Hyfforddiant a digwyddiadau

| | | |
|---|---|---|
| 12.09.2019 | Deall Awtistiaeth a'r ffordd y gall effeithio'r plentyn a'u teulu/gofalwyr | Caerdydd |
| 19.09.2019 | LHDT a Datblygiad Plant | Conwy |
| 25.09.2019 | Goruchwyliaeth: Model ar gyfer Ymarfer | Caerdyd |
| 03.10.2019 | ACE - Adeiladau Gwydnwch yn wyneb Profiadau Niwediol yn ystod Plentyndod | Abwertawe |

| | | |
|---|---|---|
| 08.10.2019 | Deall sut i Ddiogelu Lles Plant a Phobl Ifanc - Lefel 2 | Conwy |
| 09.10.2019 | Rhannu Gwybodaeth Anodd gyda Phlant | Caerdydd |

*Gellir cael mynediad at amserlen yr hyfforddiant a'r digwyddiadau yn llawn o wefan Plant yng Nghymru.*

*Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau.*

---




## *Lansio Gwneud Eich Marc 2019*

Ar 23 Awst 2019, bydd Senedd Ieuenctid y DU (UKYP) yn lansio eu pleidlais Gwneud Eich Marc i bobl ifanc ledled y DU. Yng Nghymru, hwylusir hyn gan fenter cyfranogiad, Cymru Ifanc, Plant yng Nghymru.

Bydd sefydliadau ledled Cymru yn derbyn eu pecyn adnoddau electronig brynhawn Gwener, gan eu galluogi i ddosbarthu'r papurau pleidleisio.

Mae'r bleidlais yn galluogi i bobl ifanc ddewis eu hymgyrchoedd cenedlaethol ar gyfer 2019, a phenderfynu beth yr hoffent ei drafod pan fydd yr UKYP yn cael eu trafodaeth flynyddol ym Mis Tachwedd yn Nhy'r Cyffredin.

Drwy fforymau a chynghorau ieuenctid, sefydliadau ieuenctid, ysgolion, colegau ac ar-lein, bydd y bleidlais yn rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn democratiaeth, gan ddweud wrth eu Haelodau Senedd Ieuenctid etholedig beth sy'n bwysig iddynt.

Y llynedd, cymerodd dros 1.1 miliwn o bobl ifanc ran yn y bleidlais ledled y DU, gyda'r nifer uchaf erioed o bleidleisiau yn cael eu bwrw yng Nghymru; 54,079.

Am ragor o wybodaeth ynglyn â'r bleidlais, ewch i wefan UKYP.

---

## *Canlyniadau Safon Uwch gorau erioed yng Nghymru*



Mae'r canlyniadau Safon Uwch dros dro yng Nghymru yn dangos bod Cymru wedi gwella ar y nifer o raddau A* i A nes cyrraedd y lefel uchaf erioed.

Bu cynnydd yn y graddau A* i A yng Nghymru o 26.3% yn 2018 i 27% eleni.

Mae Cymru hefyd wedi gwella o ran ei safle ar gyfer pob un o'r graddau. O'i gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon, Cymru bellach sydd yn y safle cyntaf ar gyfer A*.

Fe wnaeth y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, AC, longyfarch myfyrwyr ledled Cymru ar eu canlyniadau, gan ddweud:

"Mae'n ddiwrnod mawr i bawb sy'n casglu eu canlyniadau Safon Uwch ac rwyf am longyfarch y myfyrwyr, ynghyd â'n hathrawon a'n staff gwych mewn ysgolion, am eu

holl waith caled hyd at heddiw."

Gallwch ddarllen mwy am y canlyniadau a sut maent yn cymharu â blynyddoedd blaenorol ar wefan Llywodraeth Cymru.

---

## *Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn chwilio am brentisiaid newydd*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn chwilio am brentisiaid newydd i weithio yn swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn astudio Diploma mewn Gweinyddu Busnes am 12 mis gan ddechrau ym mis Ionawr 2020. Byddant yn gweithio mewn ystod eang o feysydd, o'r tîm adnoddau dynol, i gyfathrebu ac ymgyrchoedd ymgysylltu, i'r adrannau diogelwch a chyfleusterau adeiladu.

Gall y prentisiaid ddisgwyl ennill £17,383, sy'n gyflog byw yn ôl y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae llawr o brentisiaid yn y gorffennol wedi mynd ymlaen i gyflogaeth lawn, rhai gyda'r Cynulliad Cenedlaethol.

Am ragor o wybodaeth ynglyn â'r swyddi hyn, ac i ddarllen straeon y bobl a fu'n brentisiaid o'r blaen gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, ewch i wefan Cynlluniad Cenedlaethol Cymru.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **27 Medi 2019**.

---

## *Gwobrau Ieuenctid Mis Hanes Pobl Dduon Cymru (BHWYA) 2019*



Mae enwebiadau bellach ar agor ar gyfer Gwobrau Ieuenctid Mis Hanes Pobl Dduon Cymru 2019.

Gall pobl ifanc o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, rhwng 13 a 30 oed, gael eu henwebu am wobrau mewn amrywiaeth o gategorïau, gan gynnwys arweinydd ifanc, dinesydd da, gwyddoniaeth ac arloesi, gwirfoddolwr ifanc a gofalwr ifanc.

Mae gan bob categori ei feini prawf, sy'n egluro diben pob categori a sut all y bobl ifanc fodloni'r gofynion mynediad.

Mae rhagor o wybodaeth am y categorïau, a sut i enwebu pobl ifanc ar wefan y gwobrau. Bydd enillwyr yn derbyn eu gwobrau mewn seremoni yn Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd gan Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AC.

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw hanner nos dydd Iau, 05 Medi 2019.

---

## *Fframwaith safonau a chanlyniadau eiriolaeth i blant a*



***phobl ifanc***

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y safonau eiriolaeth y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni wrth ddarparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc.

Mae Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru yn amlinellu beth sy'n ddisgwyliedig o ddarparwyr eiriolaeth wrth iddynt ddarparu eu gwasanaeth.

Mae'r Fframwaith yn amlinellu pa ganlyniadau gall plant a phobl ifanc eu disgwyl yn ystod eiriolaeth. Mae'n amlinellu pa safonau sydd raid i ddarparwyr eu bodloni ac i ddangos eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.

Mae'r safonau hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, eiriolaeth annibynnol o ansawdd dda sy'n hawdd cael gafael arni, parch tuag at breifatrwydd a chyfrinachedd plant, a gwarchod eu lles a diogelwch.

Mae'r Fframwaith yn adeiladu ar Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003), ac yn eu disodli.

---

Am y newyddion a'r polisi diweddaraf ewch i wefan Plant yng Nghymru.

---

Children in Wales
Plant yng Nghymru

---

This weekly e-briefing is prepared exclusively for you as part of your membership to Children in Wales. It provides you with information on the latest news and policy impacting on children and families in Wales, and also includes details of events and vacancies which may be of interest to you.

To view the full list of membership benefits that you can access, please click here. If you have any comments about this e-briefing please contact info@childreninwales.org.uk.

---

# *Vacancies*

Find the latest job vacancies on the Children in Wales website. Don't forget - members can advertise for free.

- Children in Wales would like to hear from anyone with experience of working with young people who would be interested in joining our list of associated. We would particularly like to hear from Welsh speakers interested in participation work. Please contact lynne.hill@childreninwales.org.uk for more information.

---

# *Training and events*

| | | |
|---|---|---|
| 12.09.2019 | Understanding Autism and how it can impact on a child and family/carers | Cardiff |
| 19.09.2019 | LGBT & Child Development | Conwy |
| 25.09.2019 | Supervision: A Model for Practice | Cardiff |
| 03.10.2019 | ACE - Building Resilience in the Face of Adverse Childhood Experiences | Swansea |
| 08.10.2019 | Understanding How to Safeguard the Welfare of Children and Young People - Level 2 | Conwy |
| 09.10.2019 | Telling Children Difficult Information | Cardiff |

*The full training and events schedule can be accessed from the Children in Wales website.*

*Click here for more information about our members' events and training.*

---

## ***Make Your Mark 2019 Launch***

On 23 August 2019, the UK Youth Parliament (UKYP) will launch their Make Your Mark ballot for young people across the UK. In Wales, this is facilitated by Children in Wales' participation initiative, Young Wales.

Organisations throughout Wales will receive their electronic resources pack on Friday afternoon, allowing them to distribute the ballots.

The ballot allows young people to choose their national campaigns for 2019, and decide what they want to debate when the UKYP has their annual sitting in November at the House of Commons.

Through youth forums and councils, youth organisations, schools, colleges and online, the ballot will provide an opportunity for young people to participate in democracy, telling their elected Members of Youth Parliament what's important to them.

Last year, over 1.1 million young people took part in the ballot last year across the UK, with a record number of ballots returned in Wales; 54,079.

For more information about the ballot, please visit the UKYP website.

---

## ***Record A-Level results in Wales***

The provisional A-Level results in Wales show that Wales has improved the number of A* to A grades to a record high.



A* to A grades in Wales went from 26.3% in 2018 to 27% this year.

Wales has also made improvements in ranking for all grades. Compared to England and Northern Ireland are ranked first for A* grades.

The Minister for Education, Kirsty Williams AM, congratulated students across Wales on their results, saying:

"It's a big day for everyone collecting their A-level results and I want to congratulate the students, as well as our fantastic teachers and school staff, for all their hard work that's led up to today."

You can read more about the results and how they compare with previous years on the Welsh Government website.

---

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## *National Assembly for Wales seeking new apprentices*

The National Assembly for Wales is looking for new apprentices to work in the National Assembly offices in Cardiff Bay.

Successful applicants will study a Diploma in Business Administration for 12 months beginning in January 2020, and will work in a wide range of areas from the human resources team, to communication and engagement campaign, to security and building facilities departments.

The apprentices can expect to earn £17,383, which the National Assembly says is a living wage, and many previous apprentices have gone on to full time employment, some with the National Assembly.

For more information on the positions, and to read the stories of people who have previously been apprentices at the National Assembly, please visit the National Assembly for Wales website.

The closing date for applications is **27 September 2019**.

---

## *Black History Wales Youth Awards (BHWYA) 2019*

Nominations are now open for the Black History Wales Youth Awards 2019.

Young people from Black and Minority Ethnic communities in Wales, aged 13 to 30, can be nominated for awards in a variety of categories, including young leader, good citizen, science and innovation, young volunteer and young carer.

Each category has their own criteria, explaining what each category is for and how the young people can meet the entry requirements.

There is more information about the categories, and how to nominate young people on [the award website](). Winners will be presented with their awards at a ceremony at the Pierhead Building in Cardiff Bay by the First Minister, Mark Drakeford AM.

The deadline for nominations is midnight Thursday, 05 September 2019.





## *Advocacy standards and outcomes framework for children and young people*

The Welsh Government has published guidance on the standards advocacy providers must meet when they provide advocacy for children and young people.

The Independent Professional Advocacy: National Standards and Outcomes Framework for Children and Young People in Wales set out what's required of advocacy providers during the delivery of their service.

The Framework sets out what outcomes children and young people can expect during advocacy. It sets out what standards the providers need to meet and to show that they are making a positive difference to children and young people's lives.

The standards include, amongst other things, easily accessible good quality independent advocacy, respect for children's privacy and confidences and having their wellbeing and safeguarding protected.

The Framework builds on and replaces the National Standards for the provision of Children's Advocacy Services (2003).

For the latest news and policy please visit the Children in Wales.

STAY CONNECTED:

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

## Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive**,** click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.